Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Trefnydd Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd | **Lleoliad :** | Hyblyg – un o brif swyddfeydd yr Urdd (gan gynnwys Caerdydd, Glan-llyn, Bangor a Caerfyrddin) |
| **Adran :** | Eisteddfod a'r Celfyddydau | **Cyflog :** | Gweithredol 5: £31,745 - £35,365 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Rheolwr Celfyddydol | **Rheolaeth Llinell :** | Dim |

**Prif bwrpas y swydd:**

Mae Cwmni Theatr yr Urdd yn roi mynediad hawdd a chyfartal i bobl ifanc o bob cefndir cymdeithasol ac economaidd i brofiadau theatr yn y Gymraeg. Bydd y Trefnydd yn gweithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr proffesiynol a blaenllaw i gynnig profiadau o'r safon uchaf i aelodau'r Cwmni Theatr.

Rydym yn chwilio am unigolyn trefnus a chreadigol sy'n fodlon gwthio'r ffiniau er mwyn cynnig a chynllunio profiadau theatrig o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Cymru. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gydlynu a threfnu cynyrchiadau a chyfnodau ymarfer y cwmni, meithrin perthnasoedd cryf gydag ysgolion, lleoliadau, theatrau a phartneriaid, a sicrhau bod mwy o gynulleidfaoedd yn cael mynediad at theatr Gymraeg fywiog ac ysbrydoledig.

Bydd y swydd yn cynnwys teithio ar draws Cymru, gan gydweithio ag ysgolion, lleoliadau cymunedol a theatrau yn ogystal â sefydliadau i godi proffil Cwmni Theatr yr Urdd a sicrhau ei effaith ar gynulleidfaoedd ledled y wlad.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Llio Maddocks, Cyfarwyddwr Celfyddydau'r Urdd ar lliomaddocks@urdd.org

---

**Prif dyletswyddau a chyfrifoldebau**

1. Cydweithio'n agos gyda thîm Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau i ddatblygu a gwireddu prosiectau uchelgeisiol a chynhwysol Cwmni Theatr yr Urdd.

2. Trefnu rhaglen flynyddol i berfformwyr ifanc dderbyn cefnogaeth, profiad, a sgiliau perfformio / technegol, yng nghwmni eu cyfoedion yn y Gymraeg.

3. Trefnu darpariaeth gydol y flwyddyn i bobl ifanc sydd yn cynnwys creu, cynhyrchu, gweithio gydag artistiaid a thechnegwyr proffesiynol, a chyrsiau preswyl.

4. Trefnu rhaglen i fentoriaid ifanc i ddatblygu arweinwyr y dyfodol.

5. Cydweithio â Threfnyddion yr Eisteddfod i sicrhau presenoldeb Cwmni Theatr a mudiadau celfyddydol eraill ar y maes.

6. Gweithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr proffesiynol a blaenllaw i gynnig profiadau o'r safon uchaf i aelodau'r Cwmni Theatr, gan gynnwys adnabod ac recriwtio tim artistig ar gyfer cynyrchiadau amrywiol.

7. Cydlynu ymgyrch hyrwyddo cenedlaethol, gan ymestyn allan at gynulleidfaoedd sydd heb brofi'r Theatr Gymraeg a Chymreig hyd yma, gyda pherfformiadau anffurfiol mewn lleoliadau newydd.

8. Sicrhau mynediad hawdd a chyfartal i bobl ifanc o bob cefndir cymdeithasol ac economaidd i brofiadau theatr yn y Gymraeg, a chreu awyrgylch ddiogel sy'n ennyn ymddiriedaeth y bobl ifanc.

9. Gweithio o fewn cyllideb blynyddol Cwmni Theatr Ieuenctid, gan adrodd i reolwyr yr adran.

10. Cynorthwyo gyda chydlynu a pharatoi adroddiadau gwerthuso ac astudiaethau effaith o waith y Cwmni.

11. Hwyluso grwpiau ffocws ac ymchwil gyda phobl ifanc i gyd ddatblygu'r cynhyrchiad

12. Cynorthwyo gyda threfnu sioeau cymunedol Eisteddfod yr Urdd yn ardal flynyddol yr ŵyl.

13. Creu partneriaethau gyda gwyliau a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol i sicrhau cyfleoedd perfformio newydd ychwanegol i ddenu cynulleidfaoedd newydd.

14. Cefnogi Swyddogion Cymunedol ar drefnu a sicrhau gweithgaredd celfyddydol cymunedol a chenedlaethol sy'n cynyddu gweithgarwch theatrig.

15. Sicrhau datblygiad y Cwmni Theatr Ieuenctid i'r dyfodol, gan blethu'r gwaith gyda gweddill gweithgarwch yr adran yn ôl y galw.

16. Mynychu Bwrdd yr Eisteddfod ar y cyd gyda'r Trefnyddion a'r Cyfarwyddwr yn ôl y galw.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
| --- | --- |
| 1. Dealltwriaeth a gwybodaeth eang o fyd theatr a'r celfyddydau<br>2. Unigolyn creadigol, trefnus a hyderus sy'n cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>3. Y gallu i ymdrin â phartneriaid, cyfranwyr a'r cyhoedd yn broffesiynol ac i ddelio gyda sefyllfaoedd anodd mewn modd synhwyrol ac aeddfed.<br>4. Y gallu i adnabod a datrys problemau yn effeithiol ac o fewn amserlen benodol.<br>5. Profiad o reoli cyllideb<br>6. Y gallu i weithio fel aelod o dim ac ar eich liwt eich hun, gan flaenoriaethu gwaith yn ôl y galw.<br>7. Trwydded yrru a defnydd o gar. | 1. Profiad o reoli prosiectau a threfnu cyrsiau<br>2. Profiad o weithio gyda phobl ifanc<br>3. Profiad o weithio gydag artistiaid llawrydd |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Gofynion:** Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

**Gwiriadau Perthnasol:** Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).